

## Cardiff South East Spotlight

### Capeli Mynwent Cathays

#### Yes Means No App

Mae Tŷ Seren wedi lansio ap ymgyrchu sy'n canolbwyntio ar alcohol. Enw'r ap ydy Yes Means No ac mae'n tynnu sylw at y problemau sy'n gysylltiedig â cham-fanteisio a thrais rhywiol yng Nghaerdydd. Mae'r ap yn cynnwys ffilm, rhai hanesion diddorol ond cyngor cadarn hefyd.



Mae ymgyrch cyllido torfol 'Gwneud Gwahaniaeth' wedi cael ei lansio i helpu i adfywio'r capeli bendedig ym Mynwent Cathays.

Byddai bwrw'r targed o £37,000 yn gwneud y gwaith o adfer y Capel Esgobyddol yn bosibl, gan gynnwys gwaith maen celfydd ar y waliau mewnol, ailosod siliau ffenestri cerrig a'r manau oddi amgylch, llawr newydd a gwaith ar y fynedfa i'r capel.



Os hoffech gyfrannu arian at y gwaith, ewch i: [www.spacehive.com/restoration-of-cathays-cemetery-chapels](http://www.spacehive.com/restoration-of-cathays-cemetery-chapels)

O geiniog i geiniog - byddai ond yn cymryd £25 i dalu am un metr sgwâr o waith pwyntio a chyn bo hir gallai'r capeli Fictoraidd bendedig fod yn cynnal gwasanaethau angladdol un-waith eto, yn ogystal â chyngherddau, digwyddiadau a hyd yn oed priodasau. Gellid defnyddio'r incwm o'r digwyddiadau hyn i dalu am y gwaith o adfer yr ail gapel a'r tŵr cloch.

Lledaenwch y neges a'n helpu i adfywio'r rhan arbennig hon o dreftadaeth Caerdydd!  
[www.spacehive.com/restoration-of-cathays-cemetery-chapels](http://www.spacehive.com/restoration-of-cathays-cemetery-chapels)



#### Trydariau:

NeighbourhoodPartnership funded @NewLinkWales #CannabisScratchCard

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi lansio ap newydd yn ddiweddar. Byddant yn cynnal parti i lansio'r ap ar ddydd Gwener 16 Hydref o 10am ymlaen yn y swyddfa ar Splott Road. Dewch draw i gael paned a choffi ac fe wnân nhw lawr lwytho'r ap i chi.



### Proffil Partner: Canolfan Ddydd Adamsdown

Mae Partneriaeth Canolfan Ddydd Adamsdown yn Ganolfan Ddydd sefydledig ar gyfer pobl dros 50 mlwydd oed a gynhelir yn Neuadd Eglwys St German. Mae'r ganolfan ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener gan gynnig amrywiaeth eang o adnoddau! Mae'r Ganolfan Ddydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau, o 9:00am i 3:00pm ac ar ddydd Gwener o 9:00am - 1:00pm. Gweinir cinio am 12:00 Hanner dydd. Mae croeso i unrhyw un dros 50 mlwydd oed, hyd yn oed os nad ydych yn byw yn yr ardal.

Mae llawer o weithgareddau eraill ar gael hefyd gan gynnwys:

Triniwr gwallt bob pythefnos

Dawns Rubicon bob wythnos

Clybiau Llyfrau gyda rhoddion difyr

Sesiwn Canu unwaith y mis\*\*

Gweithdai cyngori lleol

I gael yr holl wybodaeth ffoniwch Reolwr y Ganolfan Ddydd: Marisa Parry ar (029) 2048 2899

